O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1195 (Cy. 147)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8A, Carreg Brân, Pont Britannia, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 30 MYA) 2012

Gwnaed *1 Mai 2012*

Yn dod i rym *12 Mai 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain i Gaergybi (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mai 2012. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8A, Carreg Brân, Pont Britannia, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 30 MYA) 2012.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20.00 o'r gloch ar 12 Mai 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A55 wrth Gyffordd 8A, Carreg Brân, yn Sir Ynys Môn, a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;